# SWYDDOG GWEITHREDOL GWIRFODDOL IFANC

DISGRIFIAD O'R RÔL
13-25 OED

**PROSIECT**

Swyddogion Gweithredol Gwirfoddol Ifanc

**HYD**
O leiaf chwe mis

**YMRWYMIAD AMSER**

2-4 awr y mis (neu fwy)

**LLEOLIAD**

Yn Ysbyty Prifysgol Cymru yn bennaf, ond mewn lleoliadau eraill ar adegau.
Ar-lein - o bell (Arolygon adborth er enghraifft)

**HYFFORDDIANT**

Hyfforddiant ar-lein ac ymarferol yn y dosbarth

**GWIRIADAU GOFYNNOL**

Dau eirda

**TREULIAU**

Ad-delir costau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnodau gwirfoddoli

**YN ADRODD I'R**

Rheolwr Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc

**GOFYNION OEDRAN**

O leiaf 13 oed, dim hŷn na 25 oed.

## Y Prosiect

Nod y prosiect yw rhoi cyfle i wirfoddolwyr ifanc gael mewnbwn pwysig i sut caiff y rhaglen wirfoddoli ieuenctid a ariennir gan Sefydliad Pears ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei chyflawni. Chwarae mewn tasgau amrywiol (fel y'u rhestrir isod). Sicrhau bod y rhaglen Gwirfoddolwyr Ifanc yn cael ei harwain yn fwy gan bobl ifanc.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Swyddog Gweithredol Gwirfoddol, byddwch yn gwirfoddoli'n agos gyda'r Rheolwr Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc, er mwyn eu cynorthwyo â thasgau amrywiol (mae'n bosib na fyddwch chi'n cymryd rhan yn yr holl dasgau isod):

**Ymchwil:** Gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc er mwyn canfod beth mae ein gwirfoddolwyr ifainc yn ei wneud yn eu rolau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a helpu i greu cylchlythyron gwirfoddolwyr, fideos ac erthyglau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar eu gweithgarwch.

**Marchnata:** Mynd i ffeiriau gwirfoddoli a helpu i gadw'r tudalennau gwe gwirfoddolwyr ifanc yn gyfredol. Cynghori a helpu'r Rheolwr Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc i gynllunio cynnwys gweledol i farchnata (tudalennau gwe, posteri, taflenni).

**Recriwtio gwirfoddolwyr:** Helpu gydag ymgyrchoedd recriwtio, gan gynnwys diwrnodau agored a recriwtio gwirfoddolwyr ifanc. Cyfrannu at greu a sefydlu diwrnodau recriwtio. Eistedd ar baneli cyfweld. Cyfrannu a chymryd rhan yn y gwaith o greu a darparu sesiynau cynefino i wirfoddolwyr.

**Disgrifiadau rôl:** Cynorthwyo yn y gwaith o siapio a gwella prosiectau a disgrifiadau rôl fel bod pobl ifanc yn gallu uniaethu â'r cynnwys.

**Cymdeithasol:** Cefnogi'r Rheolwr Prosiect Gwirfoddolwyr Ifanc gyda digwyddiadau cymdeithasol i wirfoddolwyr ifanc.

**Adborth:** Mynd i sesiynau adborth i roi adborth ar sut mae'r adran a phrosiectau'n datblygu, a gwneud awgrymiadau ar sut gellid gwneud gwelliannau.
**Mae'r rôl wedi'i chyfyngu i'r uchod tra bod y prosiect yn newydd. Mae'n bosib na fyddwch chi'n cymryd rhan yn yr holl dasgau uchod. Ni fydd y tasgau o natur weinyddol**

## Beth ydyn ni'n ei ofyn gennych chi?

- Bod yn barod i gyfathrebu gyda gwirfoddolwyr ifanc eraill a staff.
- Bod yn frwdfrydig am amcanion a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a gwirfoddoli ieuenctid yn benodol.
- Bod yn barod i roi adborth a barn adeiladol ar ystod o bynciau gwirfoddoli ieuenctid, neu'n barod i ddysgu sut.
- Rhoi 2-4 awr y mis, neu fwy, o amser gwirfoddol i ystod o dasgau (a nodwyd uchod) un ai ar safleoedd ysbyty Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (cyfarfodydd grŵp), neu drwy ddefnyddio technoleg (trafodaethau/polau
- piniwn/adborth ar-lein).
- Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd (addysgir hyn yn y sesiwn gynefino).
- Parodrwydd i gyflawni hyfforddiant a dysgu wrth i'r rôl ddatblygu.

## Beth fyddwch chi'n ei gael ohono?

- Profiad o weithio mewn tîm a gwella sgiliau datrys problemau.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned.
- Gwella eich sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys sgiliau gwrando a sgwrsio
- Meithrin hyder.
- Profiad o helpu i roi mewnbwn i wasanaeth gwirfoddolwyr ifanc mewn lleoliad bwrdd iechyd.
- Potensial i gyflawni hyfforddiant ychwanegol gyda hyfforddwyr medrus.
- Potensial i wirfoddoli mewn prosiectau gwirfoddoli ieuenctid eraill hefyd.
- Geirda gan y rheolwr prosiect gwirfoddolwyr ifanc (mae'n rhaid eich bod wedi gwirfoddoli am o leiaf bedwar mis).
- Gwahoddiad i'r digwyddiad diolch am Wirfoddoli (fel arfer ym mis Hydref/Tachwedd bob blwyddyn).